Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Jeff Cuthbert AC**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

29 Hydref 2013

Annwyl Weinidog

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2014-15**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor ar 24 Hydref 2013 i ateb cwestiynau am y cynigion yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a amlinellir isod, ac mae'n edrych ymlaen at dderbyn eich ymateb, ble y bo'n briodol, cyn gynted â phosibl.

Nodwn fod ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid o'r gyllideb ddrafft yn seiliedig ar y pedwar amcan sy'n gysylltiedig â gwaith craffu ariannol, sef fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. Rydym wedi defnyddio'r amcanion hyn yn ein hystyriaethau ac wedi nodi'r amcan perthnasol yn erbyn pob un o'r materion a amlinellir isod. Caiff copi o'r llythyr hwn ei anfon at y Pwyllgor Cyllid i'w gynorthwyo yn ei ystyriaeth gyffredinol o'r gyllideb ddrafft a chaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd.

## 1. Blaenoriaethau cyffredinol

*(Amcanion craffu: fforddiadwyedd, gwerth am arian a phroses y gyllideb)*

Rydym yn falch eich bod, lle bynnag y bo'n bosibl, yn ceisio diogelu'r cyllid ar gyfer rhaglenni allweddol sydd wedi'u hanelu at drechu tlodi, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8147
Ebost / Email : CELG.Committee@wales.gov.uk

Gofynnwyd i chi sut y caiff y gwaith o gyflawni eich ymrwymiadau yn eich portffolio, a'u canlyniadau cysylltiedig, eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian. Yn eich ymateb, fe wnaethoch egluro bod pob cynllun yn cael ei werthuso a bod "gweithdrefn safonol" ar gyfer gwerthuso, sy'n cael ei dilyn ar gyfer rhaglenni allweddol yn eich portffolio, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Mewn perthynas â Dechrau'n Deg, fe wnaethoch gadarnhau'n ddiweddarach bod y gwerthusiad arfaethedig wedi'i ohirio tan fis Rhagfyr. **Fe wnaethoch gytuno i roi rhagor o fanylion i ni am nifer y teuluoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn ardaloedd Dechrau'n Deg fel cyfran o gyfanswm y teuluoedd yn yr ardal.**

Gofynnwyd i chi sut y mae'r dull integredig o asesu'r effaith ar gydraddoldeb, datblygu cynaliadwy, tlodi, hawliau plant a'r Gymraeg wedi eich helpu i flaenoriaethu cyllid yn y meysydd lle mae ei angen fwyaf. Fe ddywedasoch fod yr angen i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mhroses y gyllideb yn berthnasol i bob Gweinidog, mai dyma'r weithdrefn arferol, a bod yr asesiadau hyn wedi cael eu gwneud.

Nodwn fod gennych gyfrifoldeb trawsadrannol dros nifer o faterion gan gynnwys trechu tlodi, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy a **byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch sut y caiff dyraniadau mewn portffolios unigol eu cydgysylltu ar draws y meysydd polisi hyn, ac o fewn iddynt, i gyflawni amcanion y *Rhaglen Lywodraethu*.**

**2. Cynllun Gweithredu ar Drechu Tlodi**
*(Amcanion craffu: fforddiadwyedd a blaenoriaethu)*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir bod trechu tlodi yn un o'i phrif flaenoriaethau yng nghyllideb ddrafft 2014-15, ac mae hyn i'w groesawu. Fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros drechu tlodi, credwn ei bod yn hollbwysig eich bod yn sicrhau bod yr agenda hon yn cael blaenoriaeth yn ystod proses y gyllideb ar draws pob portffolio. Fe wnaethoch sôn bod eich cyd-Weinidogion yn gefnogol pan gawsoch drafodaethau gyda hwy ar y mater hwn. Fodd bynnag, **byddem yn croesawu rhagor o fanylion gennych am sut y caiff yr agenda trechu tlodi ei chydgysylltu'n strategol ar draws y llywodraeth fel rhan o broses y gyllideb. Byddem hefyd yn croesawu rhagor o fanylion am sut y mae'r broses o gydgysylltu gwariant yn canolbwyntio ar atal tlodi, yn hytrach nag adweithio iddo.**

Yn ystod ein trafodaethau, fe wnaethoch amlygu rhai o'r ffyrdd y mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu hyn yn eich barn chi, gan gynnwys ymestyn Twf Swyddi Cymru i bedair blynedd a pharhau â'r grant amddifadedd disgyblion, yn ogystal â'r ymrwymiad parhaus i Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Er bod hyn yn ddefnyddiol, **byddem yn croesawu rhagor o fanylion gennych am sut y mae'r gyllideb ddrafft yn dangos bod trechu tlodi yn flaenoriaeth ar draws y llywodraeth drwy enghreifftiau o bortffolio pob Gweinidog.**

**3. Cymunedau yn Gyntaf**
*(Amcanion craffu: fforddiadwyedd, gwerth am arian, blaenoriaethu a phroses y gyllideb)*

Yn dilyn pryderon a gododd yn ystod y broses graffu ar gyllideb y llynedd a diffyg monitro effeithiol o sut yr oedd cyllid Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei wario, argymhellwyd gennym y dylai eich rhagflaenydd roi systemau ar waith i sicrhau gwerth am arian ar ddechrau'r rhaglen newydd. Yn sgil hynny, addawodd y byddai'n adeiladu ar drefniadau monitro presennol ac yn sicrhau bod gwybodaeth fonitro am Cymunedau yn Gyntaf ar gael cyn gynted â phosibl.

**Er eich bod wedi rhoi amlinelliad cryno o'r trefniadau monitro a gwerthuso presennol sydd ar waith, gan gynnwys trefniadau monitro mewnol Llywodraeth Cymru, byddai gennym ddiddordeb cael rhagor o fanylion gennych am y mater hwn. Byddem hefyd yn hoffi cael syniad o pryd rydych yn rhagweld y bydd data monitro a gwerthuso ar gael yn gyhoeddus, a pha fath o ddata y bydd hynny'n ei gynnwys.**

Wrth ddarparu rhagor o fanylion am asesu effaith Cymunedau yn Gyntaf, esboniodd eich swyddog fod canlyniadau'n cael eu hystyried dros gyfnod hwy o amser. Aeth ati i esbonio bod y canlyniadau hyn yn cael eu nodi gan glystyrau Cymunedau yn Gyntaf drwy eu cynllun cyflawni. **Rydym ar ddeall eich bod wrthi'n datblygu canllawiau ar gyfer clystyrau i'w cynorthwyo yn hyn o beth a hoffem gael copi o'r canllawiau hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.**

Er gwaethaf eich tystiolaeth, rydym yn dal i bryderu am gadernid y trefniadau monitro a gwerthuso. Yn benodol, rydym yn cwestiynu i ba raddau y mae'n briodol i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf eu hunain ddiffinio'r canlyniadau y byddant yn eu defnyddio i fesur llwyddiant. O gofio pwysigrwydd y rhaglen a'i photensial o ran rhoi cymorth i'r rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau, credwn ei bod yn hanfodol rhoi trefniadau cadarn ar waith i fonitro effeithiolrwydd y rhaglen, i asesu i ba raddau y mae'n sicrhau gwerth am arian, ac i ddeall ei heffaith ar yr agenda trechu tlodi. **Rydym yn gofyn am ragor o sicrwydd gennych yn hyn o beth ac yn gofyn i chi ystyried defnyddio dangosyddion perfformiad fel dull o fonitro cynnydd ac effaith gyffredinol y cynllun ar gymunedau.**

Rydym yn deall bod y gwerthusiad o’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar ei newydd wedd wedi'i drefnu ar gyfer dechrau 2014, ac y gellid defnyddio'r canlyniad i nodi meysydd i wella arnynt o fewn y rhaglen. **Er ein bod yn cydnabod bod cryn amser eto cyn i hynny ddigwydd, gofynnwn i chi adrodd yn ôl i ni ar ganlyniad y gwerthusiad pan fyddwch mewn sefyllfa i wneud hynny.**

**4. Diwygio lles**
*(Amcanion craffu: fforddiadwyedd, gwerth am arian a blaenoriaethu)*

Yn eich tystiolaeth, fe ddywedasoch wrthym eich bod yn credu y bydd y cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn gynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod. Yna fe ddywedasoch wrthym am danwariant o oddeutu £2 miliwn yn y Gronfa Cymorth Dewisol bresennol ar gyfer 2013-14. O gofio'r heriau a wynebir gan unigolion yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol, ac yng ngoleuni rhaglen diwygio lles barhaus Llywodraeth y DU, cawsom ein synnu yn hyn o beth. Credwn ei bod yn

bwysig sicrhau bod y rhai sydd fwyaf tebygol o fod angen cymorth yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt drwy'r gronfa. **Bydd codi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Cymorth Dewisol yn dod yn fwyfwy pwysig dros y flwyddyn i ddod yn sgil cyflwyno'r rhaglen diwygio lles. Gofynnwn i chi ystyried gwneud rhagor o waith ar hyn.**

## 5. Y trydydd sector

*(Amcanion craffu: blaenoriaethu a phroses y gyllideb)*

Rydym yn cydnabod rôl hollbwysig sefydliadau'r trydydd sector yn ein cymunedau a'r cyfraniad sylweddol a wnânt o ran helpu i drechu tlodi a darparu cymorth i'r cymunedau mwyaf difreintiedig a'r rhai sydd â'r amddifadedd mwyaf. Gan dderbyn yr hinsawdd ariannol bresennol, rydym yn siomedig gyda'r lleihad yn y dyraniad ar gyfer y trydydd sector yng nghyllideb ddrafft 2014-15.

Edrychwn ymlaen at eich datganiad am ganlyniad yr ymgynghoriad ar *Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru.*

Dywedodd eich swyddog wrthym, er nad oedd ffigur cyffredinol ar gyfer y gostyngiad yn y dyraniad i'r trydydd sector ar draws adrannau'r llywodraeth, roedd gwaith yn cael ei wneud i asesu effaith cyffredinol y gostyngiadau ar y trydydd sector. **Gofynnwn i chi adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn ar y cyfle cyntaf, gan roi asesiad o sut y gall y gostyngiadau hyn effeithio ar y gwasanaethau statudol y mae'r trydydd sector yn eu darparu.**

Rydym yn croesawu'r dyraniad o £2.2 miliwn yn 2014-15 ar gyfer gwasanaethau cynghori o gofio effaith ataliol gwasanaethau o'r fath.

## 6. Cydraddoldeb

*(Amcanion craffu: gwerth am arian)*

Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i ddiogelu cyllid ar y lefelau presennol ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant. Nodwn y dyraniad o £1.6 miliwn ar gyfer y cynllun Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant newydd ac y bydd y broses gwneud cais ar gyfer y cynllun yn dod i ben cyn bo hir.

Rydym yn deall mai'r bwriad yw sicrhau bod y grantiau hyn yn arwain at ganlyniadau pendant, yn gwneud gwahaniaeth i'r rhai y maent wedi'u targedu tuag atynt, ac yn darparu'r gwerth gorau am arian cyhoeddus o fewn fframwaith llywodraethu gadarn. Fe ddywedasoch wrthym hefyd y byddai'n ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus nodi'r canlyniadau a ragwelir ac y byddai'r cynlluniau'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n barhaus i sicrhau bod y grant y cael ei ddefnyddio'n effeithiol. **Fodd bynnag, hoffem gael rhagor o fanylion am y gwelliannau o ran monitro a gwerthuso'r gronfa hon, ac amcanion penodol y cynllun hwn.**

## 7. Cynhwysiant Ariannol ac undebau credyd

*(Amcanion craffu: blaenoriaethu a phroses y gyllideb)*

Rydym yn cytuno â chi fod gan Undebau Credyd y potensial i chwarae rhan bwysig o ran ymdrin ag allgau ariannol. Fel chithau, rydym yn credu, er mwyn iddynt allu cyflawni'r rôl hon, bod angen i ni sicrhau eu bod yn gynaliadwy.

Nodwn eich bod wedi rhyddhau taliad untro o £1.25 miliwn i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo Undebau Credyd yn y flwyddyn ariannol bresennol, yn amodol ar achos busnes derbyniol wedi'i baratoi ar y cyd gan Gymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf ac Ace Credit Union Services. Dywedasoch wrthym mai rhan o ddyraniad £1.8 miliwn oedd hwn. Yna aethoch ymlaen i ddweud bod £650,000 wedi'i ddyrannu i Undebau Credyd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15, a oedd yn llai o ran cyfanswm na'r hyn yr oeddech wedi'i gynnig eleni, ond nad yw'n ostyngiad mewn gwirionedd. Ym mis Mehefin, dywedodd eich rhagflaenydd, yn ychwanegol at yr £1.25 miliwn i gefnogi hyrwyddo, y byddai £612,000 ar gael am y chwe mis rhwng Hydref a Mawrth 2014. O ganlyniad, nid ydym yn glir ynghylch y cyllid sydd ar gael i Undebau Credyd. Gofynnwn am ragor o eglurder am gyfanswm y dyraniad ar gyfer Undebau Credyd yn 2014-15 a sut y mae'n cymharu â'r dyraniad yn 2013014.

Rydym yn cydnabod y bydd cefnogaeth i Undebau Credyd yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar y trywydd y mae'r sector ei hun yn dymuno ei ddilyn a chaiff hyn ei amlinellu yn y cynllun busnes sy'n cael ei ystyried gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, **credwn ei bod yn bwysig i chi roi cyfeiriad pendant i'r sector o ran y canlyniadau yr ydych yn awyddus i'w cyflawni yn sgil cymorth ariannol yn y dyfodol. Yn benodol, gofynnwn i chi ystyried beth arall y gellir ei wneud gyda chymorth Llywodraeth Cymru i alluogi unigolion i fynd ar drywydd cyllid fforddiadwy, gan gynnwys cymorth ariannol gan Undebau Credyd a'r Gronfa Cymorth Dewisol, lle y bo'n briodol, cyn defnyddio gwasanaethau cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog.**

## 8. Datblygu cynaliadwy

*(Amcanion craffu: blaenoriaethu a phroses y gyllideb)*

Ar ôl i ni graffu ar gyllideb ddrafft 2013-14, gofynnwyd i'ch rhagflaenydd ddangos yn gliriach sut y mae asesiadau datblygu cynaliadwy wedi effeithio ar ei benderfyniadau wrth lunio cyllidebau'r dyfodol. Wedi hynny cafodd y mater hwn ei drafod yn y Pwyllgor Cyllid a gafodd sicrwydd gan y Gweinidog Cyllid y byddai rhagor yn cael ei wneud i ddatblygu asesiadau cynaliadwyedd fel rhan o broses y gyllideb.

Pan ofynnwyd i chi a gafodd effeithiau posibl cynigion eich cyllideb ar ddatblygu cynaliadwy eu hystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, fe wnaethoch gadarnhau bod asesiad llawn wedi cael ei gynnal a bod dyraniadau'r gyllideb yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a oedd unrhyw gynigion neu gynlluniau wedi cael eu tynnu'n ôl o ganlyniad i'r asesiad. I'r perwyl hwn, **gofynnwn i chi am ragor o eglurder ynghylch y mater hwn. Yn ogystal, gofynnwn i ddogfennau cyllideb y dyfodol roi rhagor o fanylion am sut y mae datblygu cynaliadwy wedi'i ystyried fel rhan o broses y gyllideb, a manylion penodol unrhyw newidiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i'r asesiadau hynny.**

**9. Dyraniadau cyfalaf**
*(Amcanion craffu: blaenoriaethu a gwerth am arian)*

- *Y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol*

Roeddem yn falch o nodi eich bod wrthi'n ystyried yr opsiwn greu cynllun i gymryd lle y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol ac edrychwn ymlaen at gyhoeddiad gennych ar y mater hwn maes o law.

Mewn perthynas â monitro a gwerthuso'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, nodwn fod y gwerthusiad llawn olaf wedi'i gynnal yn 2007, ac roedd y canlyniadau'n gadarnhaol. **Gofynnwn am eglurhad gennych ynghylch a fydd gwerthusiad llawn o ganlyniadau'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol yn cael ei gynnal ar ddiwedd y rhaglen bresennol er mwyn asesu ei heffeithiolrwydd. Yn ogystal, rydym yn gofyn am sicrwydd gennych y bydd gan unrhyw raglen a fydd yn cymryd ei lle systemau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso'r canlyniadau o'r cychwyn. Byddem hefyd yn croesawu diweddariad ar lansio'r cynllun newydd cyn gynted ag y bydd manylion ar gael.**

- *Sipsiwn a Theithwyr*

Gofynnwyd i chi a oes unrhyw werthusiad wedi'i gynnal o wariant blaenorol ar y Grant Cyfalaf ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ac i ba raddau y gellir dangos bod y cyllid wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Er ein bod yn falch iawn o glywed gennych am y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gwaith ar safleoedd yn cael ei gwblhau ac yn cyrraedd y safonau gofynnol, **hoffem wybod pa waith sydd wedi'i wneud i asesu'r manteision i blant a theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr, e.e. gwell presenoldeb a chyrhaeddiad yn y system addysg, gwell iechyd a mwy o integreiddio, sy'n bethau y cyfeiriwch atynt yn eich papur.**

Rydym yn deall y bydd Bil Tai (Cymru) yn rhoi gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr lle nad yw anghenion yn cael eu diwallu. Awgryma eich papur fod y gost i awdurdodau lleol yn sgil darparu safleoedd yn cael eu talu gan y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ac felly na ddylai'r ddyletswydd "roi baich ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol".

Yn ystod y cyfarfod, esboniodd eich swyddog fod awdurdodau lleol yn gwneud gwaith rhagarweiniol i asesu'r angen am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardaloedd. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr i gydweithio'n agosach i sicrhau bod safleoedd sy'n cael cyllid wedi'u lleoli lle mae'r angen mwyaf, gan ystyried materion trawsffiniol. O gofio nad yw asesiadau priodol o anghenion wedi'u cwblhau eto, credwn ei bod yn anodd rhagweld gydag unrhyw sicrwydd y galw am gyllid o'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr pan fydd y dyletswyddau statudol ar waith.

Rydym yn deall y bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol a dadansoddiad o gostau yn cael eu cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a fydd yn cyd-fynd â'r Bil ac y bydd hyn yn rhoi rhagor o fanylion am gostau i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â darparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Ein bwriad yw mynd ar drywydd y mater

hwn ymhellach gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio os caiff y Bil, fel y rhagwelir, ei gyfeirio atom i'w ystyried yng Nghyfnod 1.

**Fe wnaethoch gytuno i egluro a ellid defnyddio'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr at ddibenion gwella a/neu ddarparu safleoedd dros dro.**


## 10. Deddfwriaeth

*(Amcanion craffu: fforddiadwyedd a blaenoriaethu)*

Pan ofynnwyd i chi a oedd digon o ddyraniad yng nghyllideb ddrafft 2014-15 i dalu costau'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn eich portffolio, dywedasoch nad oeddech yn ymwybodol o unrhyw broblemau penodol. Fe wnaethoch ail-bwysleisio'r gofyniad i Asesiad Effaith Rheoleiddiol a dadansoddiad o'r costau gyd-fynd â phob Bil cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad.

Mewn perthynas â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fe ddywedasoch wrthym y bydd materion yn ymwneud â galwadau ariannol yn dod i'r amlwg yn ystod y broses o greu'r Bil ac y byddai angen i'r rhain gael eu hystyried. Fel gyda Bil Tai (Cymru), os caiff Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei gyfeirio atom i'w ystyried yng Nghyfnod 1, byddwn yn mynd ar drywydd hyn ymhellach.

Yn gywir



**Christine Chapman AC / AM**
Cadeirydd / Chair

Cc. Jocelyn Davies AC, Cadeirydd, Y pwyllgor Cyllid